# Adroddiad ar yr Archwiliad o'r Cyfrifon – **Comisiynydd Heddlu a Throseddu Gogledd Cymru a Phrif Gwnstabl Heddlu Gogledd Cymru**

Blwyddyn archwilio: 2019-20

Dyddiad cyhoeddi: Medi 2020

Cyfeirnod y ddogfen: 2058A2020-21

Paratowyd y ddogfen hon fel rhan o waith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol.

Os ceir cais am wybodaeth y gall y ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer o ran trin ceisiadau a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Mae’r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg. This document is also available in English.

# Cynnwys

Rydym yn bwriadu cyhoeddi adroddiad archwilio diamod ar eich Cyfrifon. Mae rhai materion y mae angen rhoi gwybod ichi amdanynt cyn eu cymeradwyo.


Adroddiad ar yr Archwiliad o’r Cyfrifon

Cyflwyniad 4

Effaith Covid-19 ar archwiliad eleni 4

Adroddiad archwilio arfaethedig 6

Materion arwyddocaol sy’n codi o’r archwiliad 6

Atodiadau

Atodiad 1 – Llythyr Sylwadau Terfynol: Y Comisiynydd Heddlu a Throseddu 8

Atodiad 2 – Llythyr Sylwadau Terfynol: Y Prif Gwnstabl 11

Atodiad 3 – Adroddiad archwilio arfaethedig yr Archwilydd Cyffredinol i’r Comisiynydd Heddlu a Throseddu 14

Atodiad 4 – Adroddiad archwilio arfaethedig yr Archwilydd Cyffredinol i’r Prif Gwnstabl 18

Atodiad 5 – Crynodeb o gywiriadau a wnaed i’r datganiadau ariannol drafft y dylid eu dwyn i sylw’r Comisiynydd Heddlu a Throseddu a’r Prif Gwnstabl 22

# Adroddiad ar yr Archwiliad o’r Cyfrifon

## Cyflwyniad

1 Rydym yn crynhoi prif ganfyddiadau ein harchwiliad o’ch cyfrifon ar gyfer 2019-20 yn yr adroddiad hwn.

2 Rydym eisoes wedi trafod y materion hyn gyda Kate Jackson, Prif Swyddog Cyllid Swyddfa’r Comisiynydd Heddlu a Throseddu a Seb Phillips, Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau’r Prif Gwnstabl.

3 Nid yw archwilwyr byth yn gallu rhoi sicrwydd cyflawn bod cyfrifon wedi’u datgan yn gywir. Yn lle hynny, rydym yn gweithio i lefel o ‘berthnasedd’. Pennir y lefel hon o berthnasedd i geisio adnabod a chywiro camddatganiadau a allai beri fel arall i’r sawl sy’n defnyddio’r cyfrifon gael ei gamarwain.

4 Pennwyd lefel perthnasedd o £2.374m ar gyfer archwiliad eleni o ddatganiadau ariannol y Comisiynydd Heddlu a Throseddu, Grŵp y Comisiynydd Heddlu a Throseddu a’r Prif Gwnstabl.

5 Fe wnaethom bennu lefel perthnasedd o £901k ar gyfer Cronfa Bensiwn Heddlu Gogledd Cymru.

6 Ceir rhai meysydd o fewn y cyfrifon a allai fod yn bwysicach i’r darllenydd ac rydym wedi pennu lefel perthnasedd is ar gyfer y rhain, fel a ganlyn:

- Cydnabyddiaeth ariannol swyddogion £1,000
- Partïon cysylltiedig £20,000

7 Rydym bellach wedi cwblhau archwiliad eleni’n sylweddol.

8 Yn ein barn broffesiynol ni, rydym wedi cydymffurfio â’r safonau moesegol sy’n berthnasol i’n gwaith; rydym yn annibynnol arnoch chi; ac nid yw ein gwrthrychedd wedi cael ei beryglu mewn unrhyw ffordd. Rydym wedi’ch hysbysu’n flaenorol am fygythiad posibl i annibyniaeth a gwrthrychedd archwilwyr am bod un o’m staff yn briod â swyddog heddlu sy’n gwasanaethu ar hyn o bryd ac un arall o’m staff yn perthyn i swyddog heddlu sy’n gwasanaethu ar hyn o bryd, ac rydym yn cadarnhau bod y trefniadau diogelu arfaethedig a nodwyd yn ein Cynllun Archwilio wedi gweithredu fel a fwriadwyd.

## Effaith COVID-19 ar Archwiliad Eleni

9 Mae pandemig COVID-19 wedi cael effaith arwyddocaol ar bob agwedd ar ein cymdeithas ac mae’n parhau i wneud hynny. Mae’n ofynnol yn ôl y gyfraith eich bod yn paratoi cyfrifon ac mae’n glod sylweddol i ymrwymiad eich tîm cyfrifon eich bod wedi llwyddo i wneud hynny eleni yn wyneb yr heriau a achosir gan y pandemig hwn. Rydym yn eithriadol o ddiolchgar i broffesiynoldeb y tîm o ran y modd y gwnaethant ein cynorthwyo ni i gwblhau ein harchwiliad dan amgylchiadau mor anodd.

10 Nid yw'n syndod bod y pandemig wedi effeithio ar ein harchwiliad ac rydym yn crynhoi'r prif effeithiau yn **Arddangosyn 1**. Ac eithrio lle'r ydym yn gwneud argymhellion yn benodol, darperir y manylder yn **Arddangosyn 1** er gwybodaeth yn unig i'ch helpu chi i ddeall effaith pandemig COVID-19 ar broses archwilio eleni.

**Arddangosyn 1 – effaith COVID-19 ar archwiliad eleni**

| | |
|---|---|
| **Amserlen** | • Darparodd swyddogion gyfrifon drafft o ansawdd da ar ein cyfer ar 1 Mehefin 2020 fel a fwriadwyd. Mae hyn yn gyson â'r llynedd ac yn cydymffurfio â therfynau amser rheoleiddiol.<br>• Rydym yn disgwyl i'ch adroddiad archwilio gael ei lofnodi erbyn 7 Hydref 2020. |
| **Llofnodion electronig** | O ystyried y gofynion o ran cadw pellter cymdeithasol ar hyn o bryd, gall fod yn anodd llofnodi ac ardystio'r cyfrifon ar ffurf copi caled eleni. Efallai y bydd angen i ni ddefnyddio llofnodion electronig at y diben hwn a byddwn yn derbyn llofnodion electronig gan y Comisiynydd Heddlu a Throseddu a'r Prif Gwnstabl. Byddwn yn cynnal cyswllt â'r rheolwyr i sicrhau bod trefniadau perthnasol ar waith. |
| **Dull o gynnal yr archwiliad a chael tystiolaeth archwilio** | Oherwydd mesurau cadw pellter cymdeithasol, mae staff Archwilio Cymru yn gweithio o bell, gartref ar hyn o bryd. O ganlyniad, fe fabwysiadom ni ffyrdd newydd o weithio:<br>• fe wnaethom gydweithio'n agos gyda'r tîm cyllid i hwyluso ymateb prydlon i'n hymholiadau a cheisiadau mewn perthynas â'r archwiliad;<br>• fe gynhaliom ni gyfarfodydd wythnosol gyda'r Pennaeth Cyllid (Cyfarwyddwr Cynorthwyol) a'i dîm trwy gydol yr archwiliad i drafod cynnydd a materion sy'n dod i'r amlwg; ac<br>• fe gynhaliom ni sesiynau dal-i-fyny rheolaidd gyda Phrif Swyddog Cyllid Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu a Chyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau'r Prif Gwnstabl. |

11 Byddwn yn adolygu'r hyn yr ydym wedi'i ddysgu ar gyfer ein proses archwilio o bandemig COVID-19 a pha un a oes arferion arloesol y gallem eu mabwysiadu yn y dyfodol i wella'r broses honno.

# Barn Archwilio Arfaethedig

12 Rydym yn bwriadu cyhoeddi barnau diamod ar gyfrifon eleni unwaith y byddwch wedi rhoi Llythyrau Sylwadau inni yn seiliedig ar y rhai a nodir yn **Atodiad 1** ac **Atodiad 2**.

13 Rydym yn cyhoeddi barn archwilio 'amodol' lle mae gennym bryderon perthnasol ynghylch rhai agweddau ar eich cyfrifon; fel arall rydym yn cyhoeddi barn ddiamod.

14 Caiff ein hadroddiadau archwilio arfaethedig eu nodi yn **Atodiad 3** ac **Atodiad 4**.

15 Mae'r adroddiad archwilio ar gyfer y Comisiynydd Heddlu a Throseddu'n cynnwys 2 Bwyslais ar Faterion sy'n tynnu sylw at ansicrwydd sy'n deillio o amgylchiadau a achoswyd gan bandemig COVID-19:

- Nodyn 12 'Eiddo, Cyfarpar ac Offer' sy'n disgrifio ansicrwydd amcangyfrif ar ddiwedd y cyfnod adrodd, a allai fod â risg arwyddocaol o arwain at addasiad perthnasol i symiau cario tir ac adeiladau (mae hwn yn fater cyffredin); a
- Nodyn 34 'Cynllun Pensiwn Buddion Diffiniedig' sy'n disgrifio cymalau ansicrwydd prisio perthnasol yn yr adroddiadau prisio ar Gronfeydd Eiddo Cyfunol a ddelir gan Gronfa Bensiwn Gwynedd (mae hwn yn fater cyffredin).

16 Mae'r adroddiad archwilio ar gyfer Prif Gwnstabl Heddlu De Cymru hefyd yn cynnwys y Pwyslais ar Fater ar yr ansicrwydd prisio mewn perthynas â chronfeydd eiddo cyfunol yng Nghronfa Bensiwn Gwynedd:

- Nodyn 17 Cynllun Pensiwn Buddion Diffiniedig' sy'n disgrifio cymalau ansicrwydd prisio perthnasol yn yr adroddiadau prisio ar Gronfeydd Eiddo Cyfunol a ddelir gan Gronfa Bensiwn Gwynedd (mae hwn yn fater cyffredin).

17 Nid yw fy marnau wedi'u haddasu mewn perthynas â'r materion hyn.

18 Mae'r Llythyrau Sylwadau'n cynnwys rhai cadarnhadau y mae'n ofynnol i ni eu cael gennych chi dan safonau archwilio ynghyd â chadarnhad o wybodaeth benodol arall yr ydych wedi'i darparu ar ein cyfer yn ystod ein harchwiliad.

# Materion arwyddocaol sy'n codi o'r archwiliad

## Camddatganiadau nas cywirwyd

19 Rydym yn nodi isod y camddatganiadau a ganfuwyd gennym yn y cyfrifon, sydd wedi cael eu trafod gyda'r rheolwyr ond sy'n dal heb eu cywiro. Gofynnwn fod y rhain yn cael eu cywiro. Os byddwch yn penderfynu peidio â chywiro'r camddatganiadau hyn, gofynnwn i chi roi gwybod inni'n ysgrifenedig beth yw'r rhesymau dros beidio â'u cywiro.

- Y driniaeth ar gyfer prydles gorsaf heddlu Tref Wrecsam. Rhoddir cyfrif am y brydles ar gyfer yr orsaf heddlu hon fel prydles weithredu yn y cyfrifon ar hyn o bryd. Mae ein hadolygiad ni o'r brydles wedi canfod y dylid ei thrin fel prydles cyllid. Pe bai hyn yn cael ei gywiro, byddai'n arwain at ostyngiad o

£351,000 yng ngwerth yr asedau ar y cyfan yn y datganiadau ariannol, gyda rhwymedigaeth prydles cyllid ychwanegol yn cael ei chydnabod a chofnodion cysylltiedig i'r gronfa wrth gefn ailbrisio a'r cyfrif addasiad cyfalaf.

Mae trafodaethau gyda'r tîm cyllid wedi cadarnhau y bydd y brydles yn cael ei hadolygu yn ystod 2020-21 fel rhan o roi safon IFRS 16 prydlesi ar waith. Bydd yr holl brydlesi'n cael eu hasesu, a diwygiadau'n cael eu gwneud lle y bo'n berthnasol i sicrhau dosbarthiad priodol yn unol â gofynion y Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol.

- Nodyn 36(e) – Dadansoddiad o aeddfedrwydd offerynnau ariannol. Mae'r swm a ddatgelwyd ar gyfer rhwymedigaethau sy'n aeddfedu ymhen dim mwy nag un flwyddyn wedi'i danddatgan o £120,000. Dim ond nodyn datgelu yw hwn ac nid yw'n effeithio ar y sefyllfa ariannol ar 31 Mawrth 2020.

## Camddatganiadau a gywirwyd

20 Roedd camddatganiadau yn y cyfrifon yn wreiddiol sydd bellach wedi cael eu cywiro gan y rheolwyr. Fodd bynnag, rydym ni'n credu y dylid dwyn y rhain i'ch sylw a chânt eu nodi gydag esboniadau yn **Atodiad 5**.

## Materion Arwyddocaol eraill sy'n codi o'r archwiliad

21 Yn ystod yr archwiliad, rydym yn ystyried nifer o faterion sy'n ymwneud â'r cyfrifon ac yn rhoi gwybod ichi am unrhyw faterion arwyddocaol sy'n codi. Roedd un mater sy'n codi yn y meysydd hyn eleni fel a ddangosir yn **Arddangosyn 2**:

**Arddangosyn 2 – materion arwyddocaol sy'n codi o'r archwiliad**

| | | |
|---|---|---|
| **Trin asedau TG** | Canfu ein hadolygiad o Nodyn 12 'Eiddo, Cyfarpar ac Offer' rai asedau TG a oedd wedi'u dosbarthu fel asedau diriaethol y dylid eu dosbarthu fel asedau anniriaethol yn ein tyb ni.<br>Fe wnaeth ein gwaith profi ganfod hefyd nad oedd rhai o'r asedau TG hyn yn llwyr weithredol ar ddiwedd y flwyddyn o bosibl ac felly y dylid bod wedi'u dosbarthu fel asedau a oedd wrthi'n cael eu hadeiladu.<br>Nid yw hyn yn effeithio ar brisiad 'Asedau Hirdymor' ar y cyfan yn y fantolen ar 31 Mawrth 2020. | Rydym wedi cytuno gyda'r rheolwyr y byddant yn cynnal adolygiad o'r holl asedau TG yn ystod 2020-21 i ganfod unrhyw asedau anniriaethol.<br>Byddant hefyd yn sefydlu gweithdrefnau i ganfod asedau sydd wrthi'n cael eu hadeiladu. |

# Atodiad 1

## Llythyr Sylwadau Terfynol: Y Comisiynydd Heddlu a Throseddu

Comisiynydd Heddlu a Throseddu Gogledd Cymru

Glan Y Don,

Ffordd Abergele,

Bae Colwyn,

LL29 8AW

Archwilydd Cyffredinol Cymru

Archwilio Cymru

24 Heol y Gadeirlan

Caerdydd

CF11 9LJ

5 Hydref 2020

## Sylwadau ynghylch datganiadau ariannol 2019-20

Darperir y llythyr hwn mewn cysylltiad â'ch archwiliad o ddatganiadau ariannol (gan gynnwys y rhan o'r Adroddiad ar Gydnabyddiaeth Ariannol sy'n cael ei harchwilio) Comisiynydd Heddlu a Throseddu Gogledd Cymru, Grŵp Comisiynydd Heddlu a Throseddu Gogledd Cymru a Chronfa Bensiwn Heddlu Gogledd Cymru ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2020 at ddiben mynegi barn ynglŷn â'u cywirdeb a thegwch a'u paratoi'n briodol.

Yr ydym ni'n cadarnhau hyd eithaf ein gwybodaeth a'n cred, ar ôl gwneud yr ymholiadau a oedd yn ddigonol yn ein tyb ni, y gallwn gyflwyno'r sylwadau canlynol i chi.

## Sylwadau'r rheolwyr

### Cyfrifoldebau

Rydym wedi cyflawni ein cyfrifoldebau am:

- baratoi'r datganiadau ariannol yn unol â gofynion deddfwriaethol a'r Cod Ymarfer ar gyfer Cadw Cyfrifon Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2019-20; yn arbennig mae'r datganiadau ariannol yn rhoi darlun cywir a theg yn unol â'r rhain; a
- dylunio, gweithredu, cynnal ac adolygu rheolaeth fewnol i atal a chanfod twyll a gwallau.

## Gwybodaeth a ddarparwyd

Rydym wedi darparu'r canlynol ar eich cyfer:

- Mynediad llawn at:
  - yr holl wybodaeth yr ydym yn ymwybodol ohoni sy'n berthnasol i baratoi'r datganiadau ariannol megis llyfrau cyfrifon a dogfennaeth ategol, cofnodion cyfarfodydd a materion eraill;
  - gwybodaeth ychwanegol yr ydych chi wedi gofyn amdani gennym ni at ddiben yr archwiliad; a
  - mynediad digyfyngiad at aelodau o staff y penderfynoch chi fod angen cael tystiolaeth archwilio ganddynt.
- Canlyniadau ein hasesiad ni o'r risg y gallai'r datganiadau ariannol fod wedi'u camddatgan yn berthnasol o ganlyniad i dwyll.
- Ein gwybodaeth ni am dwyll gwirioneddol neu dwyll tybiedig yr ydym ni'n ymwybodol ohono ac sy'n effeithio ar Gomisiynydd Heddlu a Throseddu Gogledd Cymru, Grŵp Comisiynydd Heddlu a Throseddu Gogledd Cymru a Chronfa Bensiwn Heddlu Gogledd Cymru ac sy'n cynnwys:
  - rheolwyr;
  - cyflogeion sydd â rolau arwyddocaol mewn rheolaeth fewnol; neu
  - eraill lle gallai'r twyll gael effaith berthnasol ar y datganiadau ariannol.
- Ein gwybodaeth ni am unrhyw honiadau o dwyll gwirioneddol, neu dwyll tybiedig, sy'n effeithio ar y datganiadau ariannol a gyflëwyd gan gyflogeion, cyn-gyflogeion, rheoleiddwyr neu eraill.
- Ein gwybodaeth ni am bob achos hysbys o ddiffyg cydymffurfio gwirioneddol neu ddiffyg cydymffurfio tybiedig â deddfau a rheoliadau y dylid ystyried eu heffeithiau wrth baratoi'r datganiadau ariannol.
- Gwybodaeth am bwy yw'r holl bartïon cysylltiedig a'r holl berthnasoedd â phartïon cysylltiedig a thrafodion partïon cysylltiedig yr ydym yn ymwybodol ohonynt.

## Sylwadau am y datganiadau ariannol

Mae'r holl drafodion, asedau a rhwymedigaethau wedi cael eu cofnodi yn y cofnodion cyfrifyddu ac fe'u hadlewyrchir yn y datganiadau ariannol.

Mae tybiaethau arwyddocaol a wnaed wrth lunio amcangyfrifon cyfrifyddu, gan gynnwys y rhai a fesurwyd yn ôl gwerth teg, yn rhesymol.

Rhoddwyd cyfrif priodol am berthnasoedd a thrafodion partïon cysylltiedig ac maent wedi cael eu datgelu'n briodol.

Lle cafwyd digwyddiadau ar ôl y dyddiad adrodd yr oedd yn ofynnol gwneud addasiad ar eu cyfer neu eu datgelu, mae'r holl addasiadau a datgeliadau hyn wedi cael eu gwneud.

Mae pob ymgyfreithiad a hawliad gwirioneddol neu bosibl hysbys y dylid ystyried eu heffeithiau wrth baratoi'r datganiadau ariannol wedi cael eu datgelu wrth yr archwilydd a

rhoddwyd cyfrif amdanynt ac maent wedi cael eu datgelu yn unol â'r fframwaith adrodd ariannol perthnasol.

Nid oes unrhyw gamddatganiadau perthnasol, gan gynnwys hepgoriadau, yn y datganiadau ariannol. Mae effeithiau camddatganiadau nas cywirwyd a ganfuwyd yn ystod yr archwiliad yn amherthnasol, yn unigol ac ar y cyd, i'r datganiadau ariannol yn eu cyfanrwydd.

## Sylwadau gan Gomisiynydd Heddlu a Throseddu Gogledd Cymru

Yr wyf yn cydnabod bod y sylwadau a wnaed gan y rheolwyr, uchod, wedi cael eu trafod gyda mi.

Yr wyf yn cydnabod fy nghyfrifoldeb am baratoi datganiadau ariannol cywir a theg yn unol â'r fframwaith adrodd ariannol perthnasol. Cymeradwyais y datganiadau ariannol ar 5 Hydref 2020.

Yr wyf yn cadarnhau fy mod wedi cymryd pob cam y dylwn fod wedi'i gymryd er mwyn fy ngwneud fy hun yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol ac er mwyn cadarnhau ei bod wedi cael ei chyfleu i chi. Yr wyf yn cadarnhau, hyd y gwn i, nad oes unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol nad ydych chi'n ymwybodol ohoni.

| | |
|---|---|
| Llofnodwyd gan: | Llofnodwyd gan: |
| K Jackson | Arfon Jones |
| Prif Swyddog Cyllid Comisiynydd Heddlu a Throseddu Gogledd Cymru | Comisiynydd Heddlu a Throseddu Gogledd Cymru |
| 5 Hydref 2020 | 5 Hydref 2020 |

# Atodiad 2

## Llythyr Sylwadau Terfynol: Prif Gwnstabl

Prif Gwnstabl Gogledd Cymru

Glan Y Don,

Ffordd Abergele,

Bae Colwyn,

LL29 8AW

Archwilydd Cyffredinol Cymru

Archwilio Cymru

24 Heol y Gadeirlan

Caerdydd

CF11 9LJ

5 Hydref 2020

### Sylwadau ynghylch datganiadau ariannol 2019-20

Darperir y llythyr hwn mewn cysylltiad â'ch archwiliad o ddatganiadau ariannol (gan gynnwys y rhan o'r Adroddiad ar Gydnabyddiaeth Ariannol sy'n cael ei harchwilio) Prif Gwnstabl Heddlu Gogledd Cymru a Chronfa Bensiwn Heddlu Gogledd Cymru ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2020 at ddiben mynegi barn ynglŷn â'u cywirdeb a thegwch a'u paratoi'n briodol.

Yr ydym ni'n cadarnhau hyd eithaf ein gwybodaeth a'n cred, ar ôl gwneud yr ymholiadau a oedd yn ddigonol yn ein tyb ni, y gallwn gyflwyno'r sylwadau canlynol i chi.

### Sylwadau'r rheolwyr

#### Cyfrifoldebau

Rydym wedi cyflawni ein cyfrifoldebau am:

- baratoi'r datganiadau ariannol yn unol â gofynion deddfwriaethol a'r Cod Ymarfer ar gyfer Cadw Cyfrifon Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2019-20; yn arbennig mae'r datganiadau ariannol yn rhoi darlun cywir a theg yn unol â'r rhain; a
- dylunio, gweithredu, cynnal ac adolygu rheolaeth fewnol i atal a chanfod twyll a gwallau.

## Gwybodaeth a ddarparwyd

Rydym wedi darparu'r canlynol ar eich cyfer:

- Mynediad llawn at:
  - yr holl wybodaeth yr ydym yn ymwybodol ohoni sy'n berthnasol i baratoi'r datganiadau ariannol megis llyfrau cyfrifon a dogfennaeth ategol, cofnodion cyfarfodydd a materion eraill;
  - gwybodaeth ychwanegol yr ydych chi wedi gofyn amdani gennym ni at ddiben yr archwiliad; a
  - mynediad digyfyngiad at aelodau o staff y penderfynoch chi fod angen cael tystiolaeth archwilio ganddynt.
- Canlyniadau ein hasesiad ni o'r risg y gallai'r datganiadau ariannol fod wedi'u camddatgan yn berthnasol o ganlyniad i dwyll.
- Ein gwybodaeth ni am dwyll gwirioneddol neu dwyll tybiedig yr ydym ni'n ymwybodol ohono ac sy'n effeithio ar y Prif Gwnstabl, Heddlu Gogledd Cymru a Chronfa Bensiwn Heddlu Gogledd Cymru ac sy'n cynnwys:
  - rheolwyr;
  - cyflogeion sydd â rolau arwyddocaol mewn rheolaeth fewnol; neu
  - eraill lle gallai'r twyll gael effaith berthnasol ar y datganiadau ariannol.
- Ein gwybodaeth ni am unrhyw honiadau o dwyll gwirioneddol, neu dwyll tybiedig, sy'n effeithio ar y datganiadau ariannol a gyflëwyd gan gyflogeion, cyn-gyflogeion, rheoleiddwyr neu eraill.
- Ein gwybodaeth ni am bob achos hysbys o ddiffyg cydymffurfio gwirioneddol neu ddiffyg cydymffurfio tybiedig â deddfau a rheoliadau y dylid ystyried eu heffeithiau wrth baratoi'r datganiadau ariannol.
- Gwybodaeth am bwy yw'r holl bartïon cysylltiedig a'r holl berthnasoedd â phartïon cysylltiedig a thrafodion partïon cysylltiedig yr ydym yn ymwybodol ohonynt.

## Sylwadau am y datganiadau ariannol

Mae'r holl drafodion, asedau a rhwymedigaethau wedi cael eu cofnodi yn y cofnodion cyfrifyddu ac fe'u hadlewyrchir yn y datganiadau ariannol.

Mae tybiaethau arwyddocaol a wnaed wrth lunio amcangyfrifon cyfrifyddu, gan gynnwys y rhai a fesurwyd yn ôl gwerth teg, yn rhesymol.

Rhoddwyd cyfrif priodol am berthnasoedd a thrafodion partïon cysylltiedig ac maent wedi cael eu datgelu'n briodol.

Lle cafwyd digwyddiadau ar ôl y dyddiad adrodd yr oedd yn ofynnol gwneud addasiad ar eu cyfer neu eu datgelu, mae'r holl addasiadau a datgeliadau hyn wedi cael eu gwneud.

Mae pob ymgyfreithiad a hawliad gwirioneddol neu bosibl hysbys y dylid ystyried eu heffeithiau wrth baratoi'r datganiadau ariannol wedi cael eu datgelu wrth yr archwilydd a

rhoddwyd cyfrif amdanynt ac maent wedi cael eu datgelu yn unol â'r fframwaith adrodd ariannol perthnasol.

Nid oes unrhyw gamddatganiadau perthnasol, gan gynnwys hepgoriadau, yn y datganiadau ariannol. Nid oes unrhyw gamddatganiadau nas cywirwyd yn y datganiadau ariannol.

## Sylwadau gan Brif Gwnstabl Heddlu Gogledd Cymru

Yr wyf yn cydnabod bod y sylwadau a wnaed gan y rheolwyr, uchod, wedi cael eu trafod gyda mi.

Yr wyf yn cydnabod fy nghyfrifoldeb am baratoi datganiadau ariannol cywir a theg yn unol â'r fframwaith adrodd ariannol perthnasol. Cymeradwyais y datganiadau ariannol ar 5 Hydref 2020.

Yr wyf yn cadarnhau fy mod wedi cymryd pob cam y dylwn fod wedi'i gymryd er mwyn fy ngwneud fy hun yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol ac er mwyn cadarnhau ei bod wedi cael ei chyfleu i chi. Yr wyf yn cadarnhau, hyd y gwn i, nad oes unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol nad ydych chi'n ymwybodol ohoni.

| | |
|---|---|
| Llofnodwyd gan: | Llofnodwyd gan: |
| S Phillips | Carl Foulkes |
| Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau'r Prif Gwnstabl, Heddlu Gogledd Cymru | Prif Gwnstabl, Heddlu Gogledd Cymru |
| 5 Hydref 2020 | 5 Hydref 2020 |

# Atodiad 3

## Adroddiad archwilydd annibynnol arfaethedig Archwilydd Cyffredinol Cymru i Gomisiynydd Heddlu a Throseddu Gogledd Cymru

### Adroddiad ar yr archwiliad o'r datganiadau ariannol

#### Barn

Yr wyf wedi archwilio datganiadau ariannol:

- Comisiynydd Heddlu a Throseddu Gogledd Cymru;
- Grŵp Comisiynydd Heddlu a Throseddu Gogledd Cymru a;
- Chronfa Bensiwn Heddlu Gogledd Cymru.

ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2020 dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.

Mae datganiadau ariannol Comisiynydd Heddlu a Throseddu Gogledd Cymru yn cynnwys y Datganiad o Symudiadau mewn Cronfeydd wrth Gefn, y Datganiad o Incwm a Gwariant Cynhwysfawr, y Fantolen, y Datganiad o Lifoedd Arian Parod a'r nodiadau cysylltiedig, gan gynnwys crynodeb o'r polisïau cyfrifyddu arwyddocaol.

Mae datganiadau ariannol Grŵp Comisiynydd Heddlu a Throseddu Gogledd Cymru yn cynnwys Datganiad o Symudiadau mewn Cronfeydd wrth Gefn y Grŵp, Datganiad o Incwm a Gwariant Cynhwysfawr y Grŵp, Mantolen y Grŵp, a Datganiad o Lifoedd Arian Parod y Grŵp a'r nodiadau cysylltiedig, gan gynnwys crynodeb o'r polisïau cyfrifyddu arwyddocaol.

Mae datganiadau ariannol Cronfa Bensiwn Heddlu Gogledd Cymru'n cynnwys Cyfrif y Gronfa a'r Datganiad Asedau Net.

Y fframwaith adrodd ariannol a gymhwyswyd wrth eu paratoi yw'r gyfraith berthnasol a'r Cod Ymarfer ar gyfer Cadw Cyfrifon Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2019-2020 sy'n seiliedig ar y Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol.

Yn fy marn i mae'r datganiadau ariannol:

- yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa ariannol Comisiynydd Heddlu a Throseddu Gogledd Cymru, Grŵp Comisiynydd Heddlu a Throseddu Gogledd Cymru a Chronfa Bensiwn Heddlu Gogledd Cymru ar 31 Mawrth 2020 ac o'u hincwm a'u gwariant ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar y dyddiad hwnnw; ac
- wedi'u paratoi'n briodol yn unol â gofynion deddfwriaethol a'r Cod Ymarfer ar gyfer Cadw Cyfrifon Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2019-2020.

## Sail y farn

Cynhaliais fy archwiliad yn unol â’r gyfraith berthnasol a’r Safonau Rhyngwladol ar Archwilio yn y DU (ISA (UK)). Caiff fy nghyfrifoldebau dan y safonau hynny eu disgrifio ymhellach yn yr adran o’m hadroddiad sy’n nodi cyfrifoldebau’r archwilydd am archwilio’r datganiadau ariannol. Rwy’n annibynnol ar Gomisiynydd Heddlu a Throseddu Gogledd Cymru, Grŵp Comisiynydd Heddlu a Throseddu Gogledd Cymru a Chronfa Bensiwn Heddlu Gogledd Cymru yn unol â'r gofynion moesegol sy'n berthnasol i'm harchwiliad o'r datganiadau ariannol yn y DU, gan gynnwys Safon Foesegol y Cyngor Adrodd Ariannol, ac rwyf wedi cyflawni fy nghyfrifoldebau moesegol eraill yn unol â'r gofynion hyn. Credaf fod y dystiolaeth archwilio yr wyf wedi'i chael yn ddigonol ac yn briodol i ddarparu sail i'm barn.

## Pwyslais ar Fater – effeithiau COVID-19 ar brisiadau o asedau Comisiynydd Heddlu a Throseddu Gogledd Cymru a Grŵp Comisiynydd Heddlu a Throseddu Gogledd Cymru

Tynnaf sylw at Nodyn 12 yn y datganiadau ariannol, sy’n disgrifio’r cymal ansicrwydd prisio perthnasol yn yr adroddiad prisio ar eiddo Comisiynydd Heddlu a Throseddu Gogledd Cymru a Grŵp Comisiynydd Heddlu a Throseddu Gogledd Cymru sy’n deillio o amgylchiadau a achoswyd gan bandemig COVID-19. Nid yw fy marn archwilio wedi’i haddasu mewn perthynas â’r mater hwn.

## Pwyslais ar Fater – effeithiau COVID-19 ar brisiadau o gronfa bensiwn eiddo Comisiynydd Heddlu a Throseddu Gogledd Cymru a Grŵp Comisiynydd Heddlu a Throseddu Gogledd Cymru

Tynnaf sylw at Nodyn 34 yn y datganiadau ariannol, sy’n disgrifio’r cymal ansicrwydd prisio perthnasol yn yr adroddiad prisio ar Gronfeydd Eiddo Cyfunol a ddelir gan Gronfa Bensiwn Gwynedd sy’n deillio o amgylchiadau a achoswyd gan bandemig COVID-19. Nid yw fy marn archwilio wedi’i haddasu mewn perthynas â’r mater hwn.

### Casgliadau sy’n ymwneud â busnes gweithredol

Nid oes gennyf unrhyw beth i’w nodi o ran y materion canlynol y mae’r Safonau Rhyngwladol ar Archwilio yn y DU yn ei gwneud yn ofynnol i mi gyflwyno adroddiad i chi arnynt os bydd yr amgylchiadau canlynol yn berthnasol:

- nid yw'r defnydd o sail gyfrifyddu busnes gweithredol wrth baratoi'r datganiadau ariannol yn briodol; neu
- nid yw’r swyddog cyllid cyfrifol wedi datgelu yn y datganiadau ariannol unrhyw ansicrwydd perthnasol a nodwyd a all fwrw amheuaeth sylweddol ar allu Comisiynydd Heddlu a Throseddu Gogledd Cymru, Grŵp Comisiynydd Heddlu a Throseddu Gogledd Cymru a Chronfa Bensiwn Heddlu Gogledd Cymru i barhau i fabwysiadu sail gyfrifyddu busnes gweithredol am gyfnod o ddeuddeng mis o leiaf o'r dyddiad pan awdurdodir cyhoeddi'r datganiadau ariannol.

### Gwybodaeth arall

Y swyddog cyllid cyfrifol sy’n gyfrifol am yr wybodaeth arall yn y Datganiad Cyfrifon. Mae'r wybodaeth arall yn cynnwys yr wybodaeth sydd wedi’i chynnwys yn y Datganiad Cyfrifon ac eithrio’r datganiadau ariannol a’m hadroddiad i fel archwilydd arnynt. Nid yw fy marn am y datganiadau ariannol yn cwmpasu'r wybodaeth arall a, heblaw i'r graddau a nodir yn benodol fel arall yn ddiweddarach yn fy adroddiad, nid wyf yn mynegi unrhyw fath o gasgliad sicrwydd ar yr wybodaeth arall honno.

Mewn cysylltiad â'm harchwiliad o'r datganiadau ariannol, fy nghyfrifoldeb i yw darllen yr wybodaeth arall er mwyn nodi anghysonderau perthnasol â'r datganiadau ariannol archwiliedig a nodi unrhyw wybodaeth sy'n ymddangos fel petai'n berthnasol anghywir ar sail yr wybodaeth a gefais wrth i mi gyflawni'r archwiliad neu sy'n berthnasol anghyson â'r wybodaeth honno. Os dof yn ymwybodol o unrhyw gamddatganiadau neu anghysonderau perthnasol ymddangosiadol, ystyriaf y goblygiadau ar gyfer fy adroddiad.

## Adroddiad ar ofynion eraill

### Barn am faterion eraill

Yn fy marn i, yn seiliedig ar y gwaith a wnaed yn ystod fy archwiliad:

- mae’r wybodaeth a geir yn yr Adroddiad Naratif ar gyfer y flwyddyn ariannol y paratowyd y datganiadau ariannol ar ei chyfer yn gyson â’r datganiadau ariannol ac mae’r Adroddiad Naratif wedi’i baratoi yn unol â’r Cod Ymarfer ar gyfer Cadw Cyfrifon Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2019-20; ac
- mae’r wybodaeth a roddir yn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol ar gyfer y flwyddyn ariannol y paratowyd y datganiadau ariannol ar ei chyfer yn gyson â’r datganiadau ariannol ac mae’r Datganiad Llywodraethu Blynyddol wedi’i baratoi yn unol â’r canllawiau.

### Materion y cyflwynaf adroddiad arnynt drwy eithriad

Yng ngoleuni’r wybodaeth a’r ddealltwriaeth am Gomisiynydd Heddlu a Throseddu Gogledd Cymru, Grŵp Comisiynydd Heddlu a Throseddu Gogledd Cymru a Chronfa Bensiwn Heddlu Gogledd Cymru a’u hamgylcheddau a gafwyd yn ystod yr archwiliad, nid wyf wedi nodi unrhyw gamddatganiadau perthnasol yn yr Adroddiad Naratif na’r Datganiad Llywodraethu Blynyddol.

Nid oes gennyf unrhyw beth i'w nodi o ran y materion canlynol, y cyflwynaf adroddiad i chi arnynt os bydd yr amgylchiadau canlynol yn berthnasol, yn fy marn i:

- ni chadwyd cofnodion cyfrifyddu priodol;
- nid yw’r datganiadau ariannol yn gyson â’r cofnodion a’r ffurflenni cyfrifyddu; neu
- nid wyf wedi cael yr holl wybodaeth ac esboniadau y mae eu hangen arnaf ar gyfer fy archwiliad.

## Tystysgrif cwblhau’r archwiliad

Ardystiaf fy mod wedi cwblhau’r archwiliad o gyfrifon Comisiynydd Heddlu a Throseddu Gogledd Cymru, Grŵp Comisiynydd Heddlu a Throseddu Gogledd Cymru a Chronfa Bensiwn Heddlu Gogledd Cymru yn unol â gofynion Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 a Chod Ymarfer Archwilio Archwilydd Cyffredinol Cymru.

## Cyfrifoldebau

### Cyfrifoldebau’r swyddog cyllid cyfrifol am y datganiadau ariannol

Fel yr esbonnir yn fanylach yn y Datganiad o Gyfrifoldebau am y Datganiad Cyfrifon, y swyddog cyllid cyfrifol sy’n gyfrifol am baratoi'r datganiad cyfrifon, sy’n rhoi darlun cywir a theg, ac am ba bynnag reolaeth fewnol sy'n angenrheidiol ym marn y swyddog cyllid cyfrifol i allu paratoi datganiadau cyfrifon heb unrhyw gamddatganiadau perthnasol, boed hynny trwy dwyll neu wall.

Wrth baratoi'r datganiad cyfrifon, mae’r swyddog cyllid cyfrifol yn gyfrifol am asesu gallu Comisiynydd Heddlu a Throseddu Gogledd Cymru, Grŵp Comisiynydd Heddlu a Throseddu Gogledd Cymru a Chronfa Bensiwn Heddlu Gogledd Cymru i barhau fel busnes gweithredol, gan ddatgelu fel y bo'n gymwys, faterion sy'n ymwneud â'r busnes gweithredol a defnyddio sail gyfrifyddu busnes gweithredol oni thybir nad yw'n briodol.

### Cyfrifoldebau’r archwilydd am archwilio’r datganiadau ariannol

Fy amcanion yw cael sicrwydd rhesymol ynghylch p'un a yw'r datganiadau ariannol yn eu cyfanrwydd yn rhai heb unrhyw gamddatganiad perthnasol, boed hynny trwy dwyll neu wall, a chyhoeddi adroddiad archwilydd sy'n cynnwys fy marn. Mae sicrwydd rhesymol yn lefel uchel o sicrwydd, ond nid yw'n gwarantu y bydd archwiliad a gynhelir yn unol â’r Safonau Rhyngwladol ar Archwilio yn y DU wastad yn canfod camddatganiad perthnasol pan fo'n bodoli. Gall camddatganiadau ddeillio o dwyll neu wall ac fe'u hystyrir yn berthnasol os, yn unigol neu gyda'i gilydd, gellid yn rhesymol ddisgwyl iddynt ddylanwadu ar benderfyniadau economaidd defnyddwyr a wneir ar sail y datganiadau ariannol hyn.

Ceir disgrifiad pellach o gyfrifoldebau'r archwilydd am archwilio'r datganiadau ariannol ar wefan y Cyngor Adrodd Ariannol yn www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities. Mae'r disgrifiad hwn yn rhan o'm hadroddiad archwilio.

Adrian Compton
Archwilydd Cyffredinol Cymru
7 Hydref 2020

24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd
CF11 9LJ

# Atodiad 4

## Adroddiad archwilydd annibynnol arfaethedig Archwilydd Cyffredinol Cymru i Brif Gwnstabl Heddlu Gogledd Cymru

### Adroddiad ar yr archwiliad o'r datganiadau ariannol

#### Barn

Yr wyf wedi archwilio datganiadau ariannol:

- Prif Gwnstabl Heddlu Gogledd Cymru; a
- Chronfa Bensiwn Heddlu Gogledd Cymru.

ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2020 dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.

Mae datganiadau ariannol Prif Gwnstabl Heddlu Gogledd Cymru yn cynnwys y Datganiad o Symudiadau mewn Cronfeydd wrth Gefn, y Datganiad o Incwm a Gwariant Cynhwysfawr, y Fantolen, y Datganiad o Lifoedd Arian Parod a'r nodiadau cysylltiedig, gan gynnwys crynodeb o'r polisïau cyfrifyddu arwyddocaol.

Mae datganiadau ariannol Cronfa Bensiwn Heddlu Gogledd Cymru'n cynnwys Cyfrif y Gronfa a'r Datganiad Asedau Net.

Y fframwaith adrodd ariannol a gymhwyswyd wrth eu paratoi yw'r gyfraith berthnasol a'r Cod Ymarfer ar gyfer Cadw Cyfrifon Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2019-2020 sy'n seiliedig ar y Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol.

Yn fy marn i mae'r datganiadau ariannol:

- yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa ariannol Prif Gwnstabl Heddlu Gogledd Cymru a Chronfa Bensiwn Heddlu Gogledd Cymru ar 31 Mawrth 2020 ac o'u hincwm a'u gwariant ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar y dyddiad hwnnw; ac
- wedi'u paratoi'n briodol yn unol â gofynion deddfwriaethol a'r Cod Ymarfer ar gyfer Cadw Cyfrifon Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2019-2020.

#### Sail y farn

Cynhaliais fy archwiliad yn unol â'r gyfraith berthnasol a'r Safonau Rhyngwladol ar Archwilio yn y DU (ISA (UK)). Caiff fy nghyfrifoldebau dan y safonau hynny eu disgrifio ymhellach yn yr adran o'm hadroddiad sy'n nodi cyfrifoldebau'r archwilydd am archwilio'r datganiadau ariannol. Rwy'n annibynnol ar Brif Gwnstabl Heddlu Gogledd Cymru a Chronfa Bensiwn Heddlu Gogledd Cymru yn unol â'r gofynion moesegol sy'n berthnasol i'm harchwiliad o'r datganiadau ariannol yn y DU, gan gynnwys Safon Foesegol y Cyngor Adrodd Ariannol, ac rwyf wedi cyflawni fy nghyfrifoldebau moesegol eraill yn unol â'r gofynion hyn. Credaf fod y dystiolaeth archwilio yr wyf wedi'i chael yn ddigonol ac yn briodol i ddarparu sail i'm barn.

### Pwyslais ar Fater – effeithiau COVID-19 ar brisiadau o gronfa bensiwn eiddo Prif Gwnstabl Heddlu Gogledd Cymru

Tynnaf sylw at Nodyn 17 yn y datganiadau ariannol, sy'n disgrifio'r cymal ansicrwydd prisio perthnasol yn yr adroddiad prisio ar Gronfeydd Eiddo Cyfunol a ddelir gan Gronfa Bensiwn Gwynedd sy'n deillio o amgylchiadau a achoswyd gan bandemig COVID-19. Nid yw fy marn archwilio wedi'i haddasu mewn perthynas â'r mater hwn.

#### Casgliadau sy'n ymwneud â busnes gweithredol

Nid oes gennyf unrhyw beth i'w nodi o ran y materion canlynol y mae'r Safonau Rhyngwladol ar Archwilio yn y DU yn ei gwneud yn ofynnol i mi gyflwyno adroddiad i chi arnynt os bydd yr amgylchiadau canlynol yn berthnasol:

- nid yw'r defnydd o sail gyfrifyddu busnes gweithredol wrth baratoi'r datganiadau ariannol yn briodol; neu
- nid yw'r swyddog cyllid cyfrifol wedi datgelu yn y datganiadau ariannol unrhyw ansicrwydd perthnasol a nodwyd a all fwrw amheuaeth sylweddol ar allu Prif Gwnstabl Heddlu Gogledd Cymru a Chronfa Bensiwn Heddlu Gogledd Cymru i barhau i fabwysiadu sail gyfrifyddu busnes gweithredol am gyfnod o ddeuddeng mis o leiaf o'r dyddiad pan awdurdodir cyhoeddi'r datganiadau ariannol.

### Gwybodaeth arall

Y swyddog cyllid cyfrifol sy'n gyfrifol am yr wybodaeth arall yn y Datganiad Cyfrifon. Mae'r wybodaeth arall yn cynnwys yr wybodaeth sydd wedi'i chynnwys yn y Datganiad Cyfrifon ac eithrio'r datganiadau ariannol a'm hadroddiad i fel archwilydd arnynt. Nid yw fy marn am y datganiadau ariannol yn cwmpasu'r wybodaeth arall a, heblaw i'r graddau a nodir yn benodol fel arall yn ddiweddarach yn fy adroddiad, nid wyf yn mynegi unrhyw fath o gasgliad sicrwydd ar yr wybodaeth arall honno.

Mewn cysylltiad â'm harchwiliad o'r datganiadau ariannol, fy nghyfrifoldeb i yw darllen yr wybodaeth arall er mwyn nodi anghysonderau perthnasol â'r datganiadau ariannol archwiliedig a nodi unrhyw wybodaeth sy'n ymddangos fel petai'n berthnasol anghywir ar sail yr wybodaeth a gefais wrth i mi gyflawni'r archwiliad neu sy'n berthnasol anghyson â'r wybodaeth honno. Os dof yn ymwybodol o unrhyw gamddatganiadau neu anghysonderau perthnasol ymddangosiadol, ystyriaf y goblygiadau ar gyfer fy adroddiad.

## Adroddiad ar ofynion eraill

### Barn am faterion eraill

Yn fy marn i, yn seiliedig ar y gwaith a wnaed yn ystod fy archwiliad:

- mae'r wybodaeth a geir yn yr Adroddiad Naratif ar gyfer y flwyddyn ariannol y paratowyd y datganiadau ariannol ar ei chyfer yn gyson â'r datganiadau ariannol

ac mae’r Adroddiad Naratif wedi’i baratoi yn unol â’r Cod Ymarfer ar gyfer Cadw Cyfrifon Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2019-20; ac

- mae’r wybodaeth a roddir yn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol ar gyfer y flwyddyn ariannol y paratowyd y datganiadau ariannol ar ei chyfer yn gyson â’r datganiadau ariannol ac mae’r Datganiad Llywodraethu Blynyddol wedi’i baratoi yn unol â’r canllawiau.

### Materion y cyflwynaf adroddiad arnynt drwy eithriad

Yng ngoleuni’r wybodaeth a’r ddealltwriaeth am Brif Gwnstabl Heddlu Gogledd Cymru a Chronfa Bensiwn Heddlu Gogledd Cymru a’u hamgylcheddau a gafwyd yn ystod yr archwiliad, nid wyf wedi nodi unrhyw gamddatganiadau perthnasol yn yr Adroddiad Naratif na’r Datganiad Llywodraethu Blynyddol.

Nid oes gennyf unrhyw beth i'w nodi o ran y materion canlynol, y cyflwynaf adroddiad i chi arnynt os bydd yr amgylchiadau canlynol yn berthnasol, yn fy marn i:

- ni chadwyd cofnodion cyfrifyddu priodol;
- nid yw’r datganiadau ariannol yn gyson â’r cofnodion a’r ffurflenni cyfrifyddu; neu
- nid wyf wedi cael yr holl wybodaeth ac esboniadau y mae eu hangen arnaf ar gyfer fy archwiliad.

## Tystysgrif cwblhau’r archwiliad

Ardystiaf fy mod wedi cwblhau’r archwiliad o gyfrifon Prif Gwnstabl Heddlu Gogledd Cymru a Chronfa Bensiwn Heddlu Gogledd Cymru yn unol â gofynion Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 a Chod Ymarfer Archwilio Archwilydd Cyffredinol Cymru.

## Cyfrifoldebau

### Cyfrifoldebau’r swyddog cyllid cyfrifol am y datganiadau ariannol

Fel yr esbonnir yn fanylach yn y Datganiad o Gyfrifoldebau am y Datganiad Cyfrifon, y swyddog cyllid cyfrifol sy’n gyfrifol am baratoi'r datganiad cyfrifon, sy’n rhoi darlun cywir a theg, ac am ba bynnag reolaeth fewnol sy'n angenrheidiol ym marn y swyddog cyllid cyfrifol i allu paratoi datganiadau cyfrifon heb unrhyw gamddatganiadau perthnasol, boed hynny trwy dwyll neu wall.

Wrth baratoi'r datganiad cyfrifon, mae’r swyddog cyllid cyfrifol yn gyfrifol am asesu gallu Prif Gwnstabl Heddlu Gogledd Cymru a Chronfa Bensiwn Heddlu Gogledd Cymru i barhau fel busnes gweithredol, gan ddatgelu fel y bo'n gymwys, faterion sy'n ymwneud â'r busnes gweithredol a defnyddio sail gyfrifyddu busnes gweithredol oni thybir nad yw'n briodol.

## Cyfrifoldebau’r archwilydd am archwilio’r datganiadau ariannol

Fy amcanion yw cael sicrwydd rhesymol ynghylch p'un a yw'r datganiadau ariannol yn eu cyfanrwydd yn rhai heb unrhyw gamddatganiad perthnasol, boed hynny trwy dwyll neu wall, a chyhoeddi adroddiad archwilydd sy'n cynnwys fy marn. Mae sicrwydd rhesymol yn lefel uchel o sicrwydd, ond nid yw'n gwarantu y bydd archwiliad a gynhelir yn unol â’r Safonau Rhyngwladol ar Archwilio yn y DU wastad yn canfod camddatganiad perthnasol pan fo'n bodoli. Gall camddatganiadau ddeillio o dwyll neu wall ac fe'u hystyrir yn berthnasol os, yn unigol neu gyda'i gilydd, gellid yn rhesymol ddisgwyl iddynt ddylanwadu ar benderfyniadau economaidd defnyddwyr a wneir ar sail y datganiadau ariannol hyn.

Ceir disgrifiad pellach o gyfrifoldebau'r archwilydd am archwilio'r datganiadau ariannol ar wefan y Cyngor Adrodd Ariannol yn www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities. Mae'r disgrifiad hwn yn rhan o'm hadroddiad archwilio.

Adrian Compton
Archwilydd Cyffredinol Cymru
7 Hydref 2020

24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd
CF11 9LJ

# Atodiad 5

## Crynodeb o Gywiriadau a Wnaed

Yn ystod ein harchwiliad canfuom y camddatganiadau canlynol sydd wedi cael eu cywiro gan y rheolwyr, ond y dylid eu dwyn i'ch sylw yn ein tyb ni oherwydd eu perthnasedd i'ch cyfrifoldebau chi dros y broses adrodd ariannol.

**Arddangosyn 3: crynodeb o gywiriadau a wnaed**

| Gwerth y cywiriad | Natur y cywiriad | Rheswm dros gywiro |
|---|---|---|
| £19,879,000 | **Cyfrifon y Grŵp**<br>**Cyfrif Incwm a Gwariant Cynhwysfawr** wedi'i ddiwygio o £77,158,000 i £57,279,000<br><br>Fe effeithiodd yr addasiad hefyd ar '(enillion)/colledion actiwaraidd ar asedau/rhwymedigaethau pensiwn' yn y Cyfrif Incwm a Gwariant Cynhwysfawr, y 'Rhwymedigaeth sy'n gysylltiedig â chynllun pensiwn buddion diffiniedig' a'r 'Gronfa wrth Gefn Pensiynau' ar y Fantolen yn ôl symiau cyfatebol.<br><br>Adlewyrchwyd addasiadau cyfatebol priodol yn y canlynol hefyd:<br>• Dadansoddiad o Wariant a Chyllid a nodiadau cysylltiedig<br>• Datganiad o Symudiadau mewn Cronfeydd wrth Gefn a nodiadau cysylltiedig<br>• Datganiad o Lifoedd Arian Parod a nodiadau cysylltiedig | I roi cyfrif am effaith amcangyfrifedig rhwymedi McCloud ar brisiadau'r gronfa bensiwn ar 31 Mawrth 2020. |

| Gwerth y cywiriad | Natur y cywiriad | Rheswm dros gywiro |
|---|---|---|
| | • Nodyn 10 'Incwm a Gwariant Cyllido a Buddsoddi'<br>• Nodyn 34 'Cynlluniau Pensiynau Buddion Diffiniedig'<br><br>Ceir addasiadau cyfatebol yng nghyfrifon y Prif Gwnstabl.<br><br>Nid yw'r addasiadau'n cael unrhyw effaith ar y cyfan ar sefyllfa ariannol y Grŵp na'r Prif Gwnstabl yn ystod y flwyddyn. | |
| £26,024,000 yn hunangynhwysol o fewn Nodyn 23 | **Nodyn 23 Datganiad o lifoedd arian parod – gweithgareddau cyllido**<br>'Derbyniadau arian parod o fenthyciadau byrdymor a hirdymor' wedi'i ddiwygio o £11,024,000 i £(15,000,00) ac 'Ad-dalu benthyciadau byrdymor a hirdymor' wedi'i ddiwygio o £(9,255,000) i £16,769,000. | I gywiro symiau a ddatgelir yn y nodyn. |
| £921,000 yn hunangynhwysol o fewn Nodyn 12. | **Nodyn 12 Eiddo Cyfarpar ac Offer**<br>'Tir ac Adeiladau: Cost neu Brisiad – Codiadau/gostyngiadau ailbrisio a gydnabyddir yn y gronfa wrth gefn ailbrisio' wedi'i ddiwygio o £2,129,000 i £1,208,000 a 'Tir ac Adeiladau: Dibrisiant ac Amhariad Cronnus – Dibrisiant wedi'i gofnodi yn y gronfa wrth | I ddatgelu'n gywir bod dibrisiant cronnus wedi cael ei dynnu allan ar gyfer asedau wedi'u hailbrisio. |

| Gwerth y cywiriad | Natur y cywiriad | Rheswm dros gywiro |
|---|---|---|
| | gefn ailbrisio' wedi'i ddiwygio o £0 i £921,000. | |
| £2,229,000 yn hunangynhwysol i Nodyn 12 | **Nodyn 12 Eiddo, Cyfarpar ac Offer**<br>'Cyfarpar ac Offer: Cost neu Brisiad – Datgydnabod – arall' wedi'i ddiwygio o £(29,458,000) i £(31,687,000) a 'Cyfarpar ac Offer: Datgydnabod - arall' wedi'i ddiwygio o £29,458,000 i £31,687,000. | I sicrhau bod Nodyn 12 yn cyd-fynd â'r gofrestr asedau sefydlog. |
| £810,000 | **Mantolen**<br>Cafodd £810,000 ei ailddosbarthu o 'Prydles Cyllid Hirdymor i 'Prydles Cyllid Fyrdymor'. | I ddosbarthu taliadau Menter Cyllid Preifat sy'n ddyledus o fewn 12 mis yn gywir ar y fantolen |
| £1,282,000 yn hunangynhwysol o fewn Nodyn 17 | **Nodyn 17 Credydwyr Byrdymor**<br>'Eitemau taladwy eraill' wedi'i ddiwygio o £9,985,000 i £8,703,000 ac 'Incwm Gohiriedig' wedi'i ddiwygio o £0 i £1,282,000. | I ddatgelu cyllid a gafwyd ond nas defnyddiwyd eto yn gywir. |

Bu nifer o fân ddiwygiadau a diweddariadau i ddatgeliadau hefyd o ganlyniad i'n gwaith.

Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn Testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.